Gwyliau Gorwel

# Datganiad Hygyrchedd Beudy Taicroesion

Cyrhaeddir bwthyn Beudy Taicroesion fyny lôn un cerbyd oddi ar y brif ffordd A496 un filltir i'r gogledd o dref Bermo. Mae gorsaf drên yn nhref Bermo, a gwasanaeth bysys a thacsi oddi yno.

Lleolir y bwthyn ar lethr esmwyth, ac fe'i hamgylchynir â choncrid llyfn. Darperir man parcio ar gyfer un car, 5 medr i fyny'r llethr o brif fynedfa'r bwthyn. Mae tri gris i lawr i fynd i lecyn eistedd yn union y tu ôl i'r bwthyn, yr uchaf o'r grisiau hynny'n 20cm. O'r llecyn eistedd mae grisiau (9) gwenithfaen o amryw uchder yn arwain i'r lawnt a'r ardal BBQ. Mae'r lawnt yn gymharol wastad, a cheir llethr esmwyth i lawr i'r ardal BBQ a mainc picnic sydd wedi ei gosod ar slabiau gwenithfaen, sy'n naturiol anwastad.

Mae un fynedfa i'r bwthyn, â gris bychan o 3cm. Mae'r drws blaen yn arwain i'r gegin ac ardal fwyta. I'r chwith mae 3 gris pren yn arwain lawr i ardal yr ystafelloedd gwely, â chanllaw ar y wal chwith wrth fynd lawr. Mae grisiau yn arwain o'r ardal fwyta i'r lolfa, fyny grisiau derw (8 gris) â chanllaw ar y ddwy ochr. Mae rheilen dderw 90cm o uchder rhwng y lolfa a'r gegin islaw. Mae llifolau y tu allan i ddrws y brif fynedfa.

Mae dwy ystafell wely, y ddwy ar lawr isaf y bwthyn. Mae'r ystafell ymolchi ar yr un llawr â'r gegin/ardal fwyta.

Mae'r waliau yn olau drwyddi draw, â drysau a fframiau derw golau. Mae agoriad y drws culaf yn 74cm, a'r gweddill yn 80cm a mwy.

Mae'r lloriau'n dderw, laminiad a theils. Goleuir y gegin, ystafell ymolchi a'r ystafell fyw gan olau cilannog halogen a ffenestri yn y to. Goleuir yr ystafelloedd gwely gan lampau wal, lampau bwrdd a ffenestri.

Mae'r holl socedi trydan - ar wahân i rai ar lefel wyneb gweithio'r gegin, oddeutu 50cm o'r llawr, a'r switshis golau oddeutu 115cm.

Mae gan y TELEDU/DVD rheolydd o bell. Mae signal ffôn Vodafone cryf a signal Orange/T-Mobile/Virgin gwan.

-----------------------------------------------------------

Yng nghornel uchaf bwthyn Taicroesion (sydd gyfagos) mae ystafell golchi dillad sy'n cael ei rhannu rhwng tri bwthyn. Mae gris o 20cm i fynd i mewn iddi, mae ganddi lawr teils. Mae socedi trydan a swîts golau ar uchdwr o oddeutu 115cm.

Mae grisiau yn arwain lawr o gefn y lawnt at yr adnodd hwn.